COVID-19 Update: April 27th

Here is the latest COVID-19 update from Cardiff Council, covering: one-off garden waste collections will take place during May; a minute silence for International Workers' Memorial Day 2020; and temporary mortuary facilities procured in South Wales.

One-off garden waste collections will take place during May

Households across Cardiff will receive a one-off green garden waste collection in May, Cardiff Council has announced.

The additional collections have been arranged to help residents dispose of some of their grass cuttings and garden waste, which has built up since the service was halted because of the COVID-19 pandemic.

Residents must, however, only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

We have been working to update the calendar information for residents across the website, Cardiff Gov App and BOBi (our Chatbot). Please be aware that the calendars only show the next three collections for your property so if you are scheduled for a Garden waste collection later in the month it won't show immediately.
Cabinet Member for Clean Streets, Environment and Recycling, Cllr Michael Michael said: "A lot of residents have been getting in touch wondering if there was any chance we could do a garden waste collection during the outbreak. We've worked on a plan which involves our waste teams coming in specially to work every Saturday in May to pick up garden waste. With the reduced staffing we have been experiencing due to the virus I want to stress that this hasn't been easy to arrange.

"So, it's important people recognise this is a one-off and everyone does their bit and only puts out garden waste in their green bins or their garden sacks. Any more garden waste will have to be left behind. We simply won't have the time or capability to pick up more without disrupting our normal weekly collections across the city."

If your collection day is usually on a Monday, your garden waste will be collected on Saturday, May 2nd.

If your collection day is usually on a Tuesday, your green garden waste will be collected Saturday May 9th.

If your collection day is usually on a Wednesday, your green garden waste will be collected Saturday May 16th.

If your collection day is usually on a Thursday, your green garden waste will be collected Saturday May 23rd.

The last one-off collection will take place on May 30th for residents that usually have their waste collected on a Friday.

The following table shows when these additional collections will take place in each ward in the city.

Saturday May 2nd – Creigiau/St Fagans, Radyr/Morganstown, Fairwater; Pentyrch, Tongwynlais, Ely and Caerau

Saturday May 9th – Canton, Llandaff North, Llandaff, Velindre, Butetown, Grangetown and Riverside

Saturday May 16th – Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays and Penylan

Saturday May 23rd – Pontprennau/Old St Mellons, Trowbridge, Llanrumney, Adamsdown, Rumney and Splott

Saturday May 30th – Rhiwbina, Llanishen, Lisvane, Heath and Whitchurch

A minute silence for International Workers' Memorial Day 2020

Tomorrow, Tuesday April 28th, is the annual International Workers' Memorial Day, and the theme this year is the Coronavirus COVID-19 pandemic.

As mark of respect, you are invited to take part in a minute's silence at 11am tomorrow.

It is a chance to pay tribute to the sacrifice made by so many workers during the pandemic, to remember those who have sadly lost their lives, and to thank all those who continue to do vital work.

On April 28th every year, the trade union movement unites around the world, to mark International Workers' Memorial Day, and it is official recognised by Government.

Temporary mortuary facilities procured in South Wales

Two temporary facilities, capable of holding 1,500 bodies, have been procured in South Wales. This will ensure the availability of mortuary service provision in the event of increased demand during the COVID-19 pandemic. This precautionary measure will ensure that health organisations and our partners in South Wales will remain able to treat the deceased with dignity and respect while families put funeral arrangements in place for their loved ones.

Within South Wales, the seven Local Authorities and other partners, including the NHS and HM Coroners, are working together to ensure those who sadly pass away during Coronavirus (COVID-19) pandemic are treated with dignity and respect.

The South Wales Mortuary will supplement local arrangements allowing for the dignified care of the deceased ahead of burial or cremation.

The mortuary is based within two secure locations, in the South Wales region, and will work closely with HM Coroners, local authorities and undertakers to ensure the death of a loved one is managed with compassion and dignity.

The relevant LRF authorities have rented a segregated part of the space at a cold store facility in Cardiff Docks and another in the region. All necessary licencing and health and safety approvals are in place and the space is closely managed by a team of specialists and benefits from 24/7 security and the presence of specially trained Police Officers. The South Wales Mortuary will allow for bodies to lay in rest ahead of burial or cremation.

Diweddariad COVID-19: 27 Ebrill

Dyma'r crynodeb diweddaraf o'r diwrnod gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: cynhelir casgliadau gwastraff gardd un tro yn ystod mis Mai; Munud o dawelwch ar gyfer Diwrnod Coffa Gweithwyr Rhyngwladol 2020; cyfleusterau marwdy dros dro wedi'u caffael yn ne Cymru.

Cynhelir casgliadau gwastraff gardd un tro yn ystod mis Mai

Caiff gwastraff gardd aelwydydd Caerdydd ei gasglu un tro yn ystod mis Mai, mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi.

Mae'r casgliadau ychwanegol wedi eu trefnu i helpu trigolion i gael gwared ar rywfaint o'u tociadau gwair a gwastraff gardd, sydd wedi cronni ers atal y gwasanaeth oherwydd y pandemig COVID-19.

Rhaid i drigolion fodd bynnag roi gwastraff gardd allan i'w gasglu dim ond yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro.

Ni chaiff unrhyw wastraff gardd ychwanegol, a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, ei gasglu.

Rydym wedi bod yn gweithio ar ddiweddaru'r wybodaeth ar y calendr i breswylwyr ym mhob rhan o'r wefan, ap Cardiff gov a BOBi (ein Sgyrsfot). Nodwch mai dim ond y tri gasgliad nesaf ar gyfer eich eiddo y mae'r calendrau yn eu dangos felly os ydych wedi trefnu casgliad gwastraff gardd yn hwyrach yn y mis ni fydd i'w weld ar unwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd: "Mae llawer o drigolion wedi bod yn cysylltu â ni yn gofyn a fyddai'n bosib i ni wneud casgliad gwastraff gardd yn ystod yr argyfwng. Rydym ni

wedi datblygu cynllun sy'n cynnwys ein timau gwastraff yn dod yn arbennig i weithio bob dydd Sadwrn ym mis Mai i gasglu gwastraff gardd. Gyda llai o staff oherwydd y feirws, hoffwn bwysleisio nad oedd yn hawdd trefnu hyn.

"Felly, mae'n bwysig i bobl ddeall mai dim ond un tro fydd hyn yn digwydd a bod pawb yn gwneud eu rhan ac yn rhoi gwastraff gardd allan dim ond yn eu biniau gwyrdd neu eu sachau gardd. Bydd rhaid gadael unrhyw wastraff gardd ychwanegol yn ôl. Ni fydd gennym ni yr amser na'r gallu i gasglu rhagor heb amharu ar ein casgliadau wythnosol arferol ar draws y ddinas."

Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Llun, caiff eich gwastraff gardd ei gasglu ddydd Sadwrn, 2 Mai.

Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Mawrth, caiff eich gwastraff gardd ei gasglu ddydd Sadwrn, 9 Mai.

Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Mercher, caiff eich gwastraff gardd ei gasglu ddydd Sadwrn, 16 Mai.

Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Iau, caiff eich gwastraff gardd ei gasglu ddydd Sadwrn, 23 Mai.

Y Casgliad untro olaf fydd ar 30 Mai ar gyfer trigolion sydd fel arfer yn cael casgliadau gwastraff ar ddydd Gwener.

Mae'r tabl canlynol yn dangos pryd y bydd y casgliadau ychwanegol hyn yn digwydd ym mhob ward yn y ddinas.

Dydd Sadwrn 2 Mai - Creigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre Poeth, y Tyllgoed, Pentyrch, Tongwynlais, Trelái a Chaerau

Dydd Sadwrn 9 Mai - Treganna, Ystum Taf, Llandaf, Felindre, Butetown, Grangetown a Glan-yr-afon

Dydd Sadwrn 16 Mai - Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays a Phen-y-lan

Dydd Sadwrn 23 Mai - Pontprennau/Pentref Llaneirwg, Trowbridge, Llanrhymni, Adamsdown, Tredelerch a Sblot

Dydd Sadwrn 30 Mai - Rhiwbeina, Llanisien, Llys-faen, y Mynydd Bychan a'r Eglwys Newydd

Munud o dawelwch ar gyfer Diwrnod Coffa Gweithwyr Rhyngwladol 2020

Yfory, dydd Mawrth 28 Ebrill yw'r Diwrnod Coffa Gweithwyr Rhyngwladol blynyddol, a'r thema eleni yw pandemig Coronafeirws COVID-19.

Fel arwydd o barch, fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn munud o dawelwch am 11am yfory.

Mae'n gyfle i dalu teyrnged i'r aberth a wneir gan gynifer o weithwyr yn ystod y pandemig, i gofio am y rhai sydd, yn anffodus, wedi colli eu bywydau, ac i ddiolch i bawb sy'n parhau i wneud gwaith hanfodol.

Ar 28 Ebrill bob blwyddyn, mae'r mudiad undebau llafur yn uno o amgylch y byd, i nodi'r Diwrnod Coffa Gweithwyr Rhyngwladol, ac mae'n cael ei gydnabod yn swyddogol gan y Llywodraeth.

Cyfleusterau marwdy dros dro wedi'u caffael yn ne Cymru

Mae dau gyfleuster dros dro, sydd â lle ar gyfer 1,500 o gyrff, wedi'u caffael yn ne Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau marwdy ar gael os bydd galw cynyddol yn ystod y pandemig COVID-19. Bydd y mesur rhagofalus hwn yn sicrhau y bydd sefydliadau iechyd a'n partneriaid yn ne Cymru yn parhau i allu trin yr ymadawedig gydag urddas a pharch tra bod teuluoedd yn rhoi trefniadau angladd ar waith ar gyfer eu hanwyliaid.

Yn ne Cymru, mae'r saith Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill, gan gynnwys y GIG a Chrwneriaid EM, yn cydweithio i sicrhau y caiff y rhai sy'n colli eu bywydau yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19) eu trin ag urddas a pharch.

Bydd Marwdy De Cymru yn ategu trefniadau lleol gan sicrhau gofal gydag urddas i'r ymadawedig cyn eu claddu neu eu hamlosgi.

Mae'r marwdy wedi'i leoli mewn dau leoliad diogel, yn rhanbarth de Cymru, a bydd yn gweithio'n agos â Chrwneriaid EM, awdurdodau lleol a threfnwyr angladdau i sicrhau bod marwolaethau anwyliaid yn caei eu trin gyda thosturi ac urddas.

Mae'r awdurdodau perthnasol o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth wedi rhentu rhan o gyfleuster storio oer yn Nociau Caerdydd, ac un arall yn y rhanbarth. Mae'r caniatâd a'r holl gymeradwyaethau iechyd a diogelwch angenrheidiol yn eu lle a rheolir y gofod yn ofalus gan dîm o arbenigwyr. Mae yna hefyd drefniadau diogelwch 24/7 a Swyddogion Heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. Bydd Marwdy De Cymru yn lle i gyrff orwedd cyn eu claddu neu eu hamlosgi.